



## Gwerthusiad Doethineb Gwledig Astudiaeth Achos 5: Gweithgareddau cymunedol drwy Doethineb Gwledig - Grŵp Canu yn Brechin, Ionawr 2020



Ar ddechrau Doethineb Gwledig, daeth pob cymuned ynghyd i drafod y problemau allweddol i bobl hŷn sy'n byw yno a sut y gallai Doethineb Gwledig helpu. Helpodd y problemau hyn i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer y Gweithwyr Datblygu, eu hymgysylltiad â phobl hŷn a gwaith gyda sefydliadau. Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn amlygu un enghraifft o beth sydd wedi cael ei gyflawni a'i gynnal yn Brechin, yr Alban.

### ***"Mwy o weithgareddau cymunedol i bobl hŷn sy'n byw yn Brechin, a'r cyffiniau"*** (Preswlydd lleol)

Pan gafodd bobl wahoddiad i siarad am faterion lleol dros baned a chacen yn nyddiau cynnar Doethineb Gwledig, un o'r pethau cyntaf y gwnaethant ei awgrymu oedd ***"mwy o weithgareddau cymunedol i bobl hŷn sy'n byw yn Brechin, a'r cyffiniau"***. Ym mis Medi 2017, cytunodd y digwyddiad 'Vision for Change' yng Ngogledd Angus y dylai hyn fod yn flaenoriaeth i Doethineb Gwledig.

Cymerodd y Gweithiwr Datblygu sylw o hyn a dechreuodd Grŵp Canu Cymunedol Brechin fel sesiynau blasu ym mis Chwefror 2018. Roedd hysbysebion ar gyfer y grŵp yn pwysleisio *'ei fod yn agored i bawb sy'n dymuno canu. Mae croeso i bawb ac nid oes clyweliadau!'*

Nod y grŵp hwn yw dod â phobl leol sy'n mwynhau canu ynghyd a rhannu brwdfrydedd dros ganu er mwyn creu ymdeimlad o gysylltiadau cymdeithasol ac ymdrech ar y cyd.

Pan ddaeth y sesiynau blasu i ben, dywedodd y grŵp yn ddi-os y byddent yn hoffi parhau. Ers mis Ebrill 2018,

mae'r Grŵp Canu Cymunedol wedi cyfarfod bob pythefnos ac mae'n denu oddeutu 10 - 20 o bobl i bob sesiwn.

Ymhlith yr uchafbwyntiau mae prynhawn Carolau Nadolig fis Rhagfyr diwethaf i ddiolch i breswylwyr o dai gwarchod Newington Sheltered Garden am ganiatáu iddynt ddefnyddio eu lolfa ar gyfer eu sesiynau bob pythefnos - y gwnaeth pawb ei fwynhau!

Felly sut mae pobl wedi ymuno â'r grŵp canu - a sut maent yn elwa o fod yn rhan ohono? Fel yr eglurodd un preswlydd Brechin:

***"Ymunais â'r Grŵp Canu ar ôl i Shona [y Gweithiwr Datblygu] gysylltu â phobl a allai fod â diddordeb drwy'r Eglwys, lle y clywais amdano. Drwy'r grŵp rwyf bellach yn cymryd rhan yn y digwyddiadau Cinio Mawr a'r Daith Gerdded Fawr"***.

Mae'r Grŵp Canu yn sicr yn helpu pobl i wneud cysylltiadau. Mae hyn yn digwydd yn uniongyrchol drwy ddod i'r grŵp ac yn fwy eang drwy gyfarfod ag eraill yn y grŵp a darganfod am weithgareddau eraill.

# Adeiladu cysylltiadau yn y gymuned

**"Nid yw dynion yn hoff o ddweud eu bod yn unig - mae'n well ganddynt ddod i weithgaredd".**

Mae partner Trydydd Sector yng Ngogledd Angus yn credu bod y grŵp canu yn berffaith i Brechin gan: **"Fod Doethineb Gwledig yn ychwanegu at beth sydd yno'n barod a'r hyn sydd ar goll yn llwyr ar eu cyfer. Mae'n cynnal pethau newydd fel y grŵp canu nad oedd yn bodoli o'r blaen ac sy'n codi calon - nid yn peri gofid fel grwpiau ieched - 'dylech wneud hyn', 'ni ddylech wneud hyn' etc".**

Mae'r partner hwn hefyd yn nodi, yn ogystal â bod yn weithgaredd cymdeithasol, mae canu hefyd yn dda ar gyfer anadlu ac ieched. Maent yn credu ei fod yn gadarnhaol bod dynion a merched yn cymryd rhan gan ei fod yn anodd cael dynion i wneud pethau.

Mae Aelodau Grŵp Canu Cymunedol Brechin hefyd wedi bod yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros redeg y grŵp. Fel y dywedodd un preswlydd: **"Mae pobl yn y Grŵp Canu yn cymryd eu tro i drefnu lleoliad, darparu lluniaeth etc. Dylai barhau i gael ei redeg yn**

**iawn ar ôl i Shona [y Gweithiwr Datblygu] adael - er y byddwn yn ei cholli."**

Eglura'r Gweithiwr Datblygu fod yna gamau i'w cymryd tuag at sicrhau bod pobl hŷn yn arwain newid: **"Yn gyntaf mae'n rhaid i bobl ddod ynghyd a bod yn fwy cysylltiedig - yn aml drwy weithgareddau cymdeithasol fel y grŵp canu neu ddawnsfeydd te. Gallant gymryd mwy o gyfrifoldeb wrth arwain neu gydlynu'r mathau hyn o ddiwyddiadau a gellir annog rhai ohonynt i ymwneud â materion ehangach."**

Mae hi wedi annog hyn drwy gefnogi pobl, o'u cael i wneud mwy yn araf, megis dewis cerddoriaeth a dewis lluniaeth ar gyfer y grŵp, i gael sgysiau am beth arall y gallant ei wneud yn Brechin ar ôl i'r sesiwn ganu orffen.

Mae'r dull wedi gweithio ac wedi cael ei werthfawrogi. Eglurodd un preswlydd: **"Mae Shona [y Gweithiwr Datblygu] wedi rhoi hyder i ni - y gall pobl wneud mwy eu hunain".**

## Adnoddau

Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth ac adnoddau yn: [www.ruralwisdom.org](http://www.ruralwisdom.org)

### Astudiaethau achos eraill o Doethineb Gwledig:

1. 'What's On' (Aberdaugleddau)
2. Grŵp Trafnidiaeth (Ucheldir Swydd Perth)
3. Gwaith Rhyng-genedlaethol (Eaglesham)
4. Caffi Cymunedol (Coed-llai)
5. Grŵp Canu (Brechin)

[www.ndti.org.uk/news/rural-wisdom-evaluation](http://www.ndti.org.uk/news/rural-wisdom-evaluation)

## Pwynt Cyswllt Gwerthuso

Carol Clifford

Arweinydd y Rhaglen (Heneiddio â Phobl Hŷn)

E-bost: [Carol.Clifford@ndti.org.uk](mailto:Carol.Clifford@ndti.org.uk)

Ffôn: 01225 789135

Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi)

Llawr Cyntaf

30-32 Westgate Buildings

Caerfaddon BA1 1EF

[www.ndti.org.uk](http://www.ndti.org.uk)